

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2025.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jayne Bryant AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
10 Chwefror 2025

RHAN 1

Disgrifiad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud newidiadau i'r erthyglau enghreifftiol rhagnodedig ar gyfer Cwmnïau Hawl i Reoli ('RTM'). Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r dull y dyrennir hawliau pleidleisio, yn dilyn newid i'r meini prawf cymhwyso Hawl i Reoli a wneir yn Neddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024. Byddant yn diogelu gallu tenantiaid sy'n aelodau o gwmni RTM i arfer mwyafrif dros landlordiaid sy'n aelodau o gwmni RTM.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

Y cefndir deddfwriaethol

3. Nodir pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio Rheoliadau Cwmnïau RTM (Erthyglau Enghreifftiol) (Cymru) 2011 (OS 2011/2680) yn adran 74(2) a (4) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("Deddf 2002"). Mae'r Rheoliadau diwygio yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
4. Yn rhinwedd paragraff 30(2)(c) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) mae'r swyddogaethau a arferid gynt gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr "appropriate national authority" o dan adran 179(1) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

5. Diben y Rheoliadau hyn yw diwygio Erthyglau Enghreifftiol er mwyn ymateb i newid meini prawf cymhwyso ar gyfer yr Hawl i Reoli ('RTM') a gynhwysir yn Neddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024. Bydd y Rheoliadau'n diogelu gallu tenantiaid sy'n aelodau o gwmni RTM i arfer mwyafrif dros landlordiaid sy'n aelodau, a allai gael ei danseilio fel arall o ganlyniad i'r newid mewn deddfwriaeth sylfaenol.
6. Cyflwynwyd yr RTM gan Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ("Deddf 2002") i roi hawl i lesddeiliaid hir ymuno â'i gilydd i ymgymryd â gwaith rheoli'r safle sy'n cynnwys eu fflatiau, heb ystyried unrhyw fai ar ran eu landlord. Mae'r hawl yn arferadwy drwy gwmni RTM sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn Neddf 2002. Mae rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2002 yn nodi cynnwys a ffurf erthyglau cymdeithasu cwmnïau RTM.

7. Mae erthygl 33 o'r Erthyglau Enghreifftiol yn ymdrin â dyrannu hawliau pleidleisio i bob aelod o'r cwmni, yn seiliedig ar eu buddiant yn yr eiddo. O dan yr erthyglau cyfredol, mae pleidleisiau'n arferadwy gan landlordiaid sy'n aelodau o'r cwmni o dan amgylchiadau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys pan fo pleidleisiau'n cael eu dyrannu mewn cysylltiad â rhannau amhreswyl o'r eiddo, sy'n arferadwy gan landlord uniongyrchol y mannau hynny. Dyrennir pleidleisiau mewn cysylltiad â rhannau amhreswyl o'r adeilad yn unol â'r gymhareb o arwynebedd llawr preswyl i amhreswyl. Gan fod Deddf 2002 ond yn caniatáu i eiddo ag uchafswm o 25% o arwynebedd amhreswyl fod yn gymwys i arfer yr RTM, cyfyngodd hyn ar gyfran hawliau pleidleisio landlordiaid sy'n rheoli arwynebedd llawr amhreswyl i 25%.
8. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar yr Hawl i Reoli¹ yn crynhoi effaith dyraniadau hawliau pleidleisio cyfredol yn yr Erthyglau Enghreifftiol fel a ganlyn:
 - "to determine the relative voting power of residential and non-residential parts;
 - to ensure the landlord can exercise at least some voting power in the RTM company;
 - to ensure that where all qualifying tenants are members, they are able to exercise a majority of votes."
9. Diwygiodd Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 y meini prawf cymhwyso ar gyfer yr Hawl i Reoli. Yn flaenorol, dim ond eiddo gyda hyd at 25% o ddefnydd amhreswyl oedd yn gymwys ar gyfer yr hawl. Cynyddodd adran 49 o'r Ddeddf y terfyn amhreswyl hwn i 50%.
10. Os cedwir yr Erthyglau Enghreifftiol cyfredol ar ôl cychwyn y newid i'r terfyn amhreswyl, bydd hyn yn caniatáu i landlordiaid rhannau amhreswyl o eiddo y mae'r RTM yn cael ei arfer ar ei gyfer gael hyd at 50% o hawliau pleidleisio'r cwmni.
11. Bydd y Rheoliadau hyn yn gwneud newid i ddyraniad hawliau pleidleisio i ddiogelu mwyafrif posibl y tenantiaid sy'n aelodau, a fyddai fel arall yn cael eu colli o blaid pleidleisiau landlordiaid o dan y Rheoliadau cyfredol. Y modd y mae'r dyraniad hawliau pleidleisio yn cael ei ddiweddarau oedd yr opsiwn a ffefrir gan Gomisiwn y Gyfraith, fel y nodir yn ei adroddiad RTM.² Mae'r Rheoliadau'n diwygio erthygl 33 o'r Erthyglau Enghreifftiol i bennu na all cyfanswm y pleidleisiau sy'n arferadwy gan landlordiaid o dan lesoedd fyth fod yn fwy na thraean o gyfanswm y pleidleisiau sy'n arferadwy gan denantiaid cymwys. Bydd hyn yn cadw nod polisi'r hawl i reoli, sef sicrhau bod tenantiaid mewn eiddo yn gallu ymgymryd â chyfrifoldebau rheoli oddi wrth landlord.
12. Ochr yn ochr â'r newidiadau i hawliau pleidleisio sydd eu hangen er mwyn ymateb i'r newid yn y terfyn amhreswyl, nododd Comisiwn y

¹ [Adroddiad Leasehold home ownership: exercising the right to manage](#) (ar gael yn Saesneg yn unig); daw'r dyfyniad hwn o dudalen 128.

² Adroddiad RTM Comisiwn y Gyfraith, nodir yr opsiynau ar dudalennau 131-134.

Gyfraith hefyd ddwy broblem o ran drafftio'r erthyglau enghreifftiol, a allai amharu ar weithrediad y cwmni RTM, gan arwain at ormod o bleidleisiau yn cael eu dyrannu i landlord neu fuddiannau rhydd-ddeiliad:

"There are also two ambiguities in the text of the current law. The first is that the model articles in both England and Wales refer to "leases", but do not explicitly state that this refers only to long leases. The second is that the allocation by article 33(3)(f) of one vote to any landlord arguably inflates the number of votes controlled by the freeholder in circumstances where freeholder and intermediate landlords are related entities.³"

13. Mae argymhelliad 25 o'u hadroddiad yn nodi'r dull a ffefrir ganddynt o ran gwella'r materion hyn:

"Recommendation 25. We recommend that the meaning of "leases" in the model articles should be clarified so that it refers only to "long leases", as that expression is defined in the 2002 Act. We recommend that the allocation of one vote to any landlord under a lease in the model articles of association should apply only to the freeholder who has not otherwise been allocated a vote; it should not apply to any intermediate landlords.⁴"

14. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gweithredu'r argymhellion hyn gan Gomisiwn y Gyfraith.

15. Bydd yr Erthyglau Enghreifftiol diwygiedig a nodir yn y Rheoliadau yn gymwys i gwmnïau RTM newydd a phresennol a'u haelodau.

16. Bydd yr offeryn hwn yn gymwys o ran Cymru. Bydd yr un newidiadau yn cael eu gwneud yn Lloegr a byddant yn dod i rym ar 3 Mawrth 2025.

Ymgynghori

17. Roedd prosiect Comisiwn y Gyfraith ar yr Hawl i Reoli yn cynnwys ymgynghori'n helaeth ar weithrediad a phroblemau gyda'r gyfraith. Ystyriodd y prosiect ystod eang o faterion, gan gynnwys meini prawf cymhwyso, yr oedd Deddf 2002 yn ei gyfyngu i adeiladau gyda llai na 25% o arwynebedd amhreswyl. Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol ar y cysyniad o ddileu'r terfyn amhreswyl hwn o feini prawf cymhwyso. Fodd bynnag, ar ôl ei ystyried ymhellach argymhellodd yr adroddiad terfynol gynyddu'r terfyn amhreswyl i 50%.

18. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, nododd Comisiwn y Gyfraith y byddai angen diwygio hawliau pleidleisio i warchod gallu tenantiaid i bleidleisio'n unfrydol i arfer mwyafrif absoliwt dros landlordiaid sydd â hawliau pleidleisio yn y cwmni RTM, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Nododd

³ Adroddiad RTM Comisiwn y Gyfraith, tudalen 130.

⁴ Adroddiad RTM Comisiwn y Gyfraith, tudalen 134.

Comisiwn y Gyfraith nifer o opsiynau i gyflawni'r nod hwn, ond yr opsiwn a ffefrir ganddynt oedd capio pleidleisiau landlordiaid yn yr RTM.

19. Cynhaliodd Llywodraeth y DU, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, ymgynghoriad⁵ a oedd yn ystyried y pwyntiau hyn yn benodol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn rhwng 11 Ionawr a 22 Chwefror 2022. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth⁶ ar 27 Tachwedd 2023, ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad i Senedd y DU.
20. Cadarnhaodd yr ymateb y byddai'r bwriad datganedig o gynyddu'r terfyn amhreswyl i 50% yn cael ei ddilyn. O ran hawliau pleidleisio, cytunodd mwyafrif yr unigolion (89%) y dylid diwygio hawliau pleidleisio, ac roedd y mwyafrif (80%) yn cefnogi'r opsiwn dan ystyriaeth (cyfyngu cyfanswm y pleidleisiau a ddyrennir i landlordiaid i draean o gyfanswm y pleidleisiau i denantiaid cymwys). Nid oedd eraill, yn enwedig landlordiaid, yn cytuno â'r opsiwn, ond roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn nodi'r rhesymeg dros gefnogi mabwysiadu'r opsiwn hwnnw, hyd yn oed o ystyried diffyg cefnogaeth unfrydol gan bawb a allai gael eu heffeithio:

“6.8 Option 3 provides certainty, if all leaseholders vote unanimously, they will always be able to exercise an absolute majority. We believe this is justified because the RTM is designed to transfer management functions from landlords to leaseholders, if leaseholders cannot be guaranteed control the function of the RTM is undermined. Leaseholders responding to the consultation questioned why they should exercise the RTM if it does not guarantee them control over the very management functions they are exercising a RTM to acquire. Others worried that landlords would use disproportionate control to frustrate leaseholder’s legitimate aims for the management of their properties.

6.9 Option 3 guarantees leaseholder control by capping landlords votes at no more than one-third of the total votes exercisable by qualifying tenants. Many respondents opposed to the change thought this was unfair on landlords. For example, a landlord may retain non-residential elements making up more than a third of the building but have their votes limited to one-third. They believed landlords should retain voting rights in proportion to their retained interest in the building with no cap.

6.10 We are unconvinced by this argument for two reasons. Firstly, the RTM is primarily concerned with the management of the residential and common parts of a building. It is not

⁵ [Diwygio'r systemau lesddaliad a chyfundaliad yng Nghymru a Lloegr - GOV.UK](#)

⁶ <https://www.gov.uk/government/consultations/reforming-the-leasehold-and-commonhold-systems-in-england-and-wales/outcome/reforming-the-leasehold-and-commonhold-systems-in-england-and-wales-summary-of-responses-and-government-response>

proportionate for non-residential and residential elements to be allocated equal voting rights in a RTM company that primarily manages residential space. Secondly, landlords will still enjoy voting rights in the RTM company, they will simply be limited, and leaseholders will all need to vote unanimously to exercise an absolute majority. We think this strikes a fair balance between the rights of landlords and leaseholders. We also note that landlords retain the right to make an application to the First-tier Tribunal (Property Chamber) under Part 2 of the Landlord and Tenant Act 1987 for the appointment of a manager if they believe the RTM company has failed on the listed grounds. This provides an appropriate safeguard for landlords to act against poor management of the building.

6.11 For the reasons explained above we accept the Law Commission's Option 3 to cap the total votes allocated to landlords in RTM companies to one-third of the total votes to qualifying tenants.⁷"

21. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi effaith i'r ymrwymiad a wnaed yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

⁷ [Diwygio'r systemau lesddaliad a chyfundaliad yng Nghymru a Lloegr: crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y llywodraeth - GOV.UK](#)

Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Yr Opsiynau

22. **Opsiwn 1: Gwneud dim.** Os na fydd yr Erthyglau Enghreifftiol yn cael eu diwygio, yna pan fydd y darpariaethau RTM yn Neddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024 yn cael eu cychwyn, byddai'r hawliau pleidleisio mewn cwmnïau RTM a ffurfiwyd mewn adeiladau sydd newydd gymhwyso ar gyfer yr RTM yn cael eu pwysoli tuag at landlordiaid. Byddai hyn yn groes i fwriad yr Hawl i Reoli, sef caniatáu i denantiaid gymryd drosodd a pharhau i arfer penderfyniadau ynghylch rheoli eu heiddo.
23. **Opsiwn 2: Diweddarau'r Erthyglau Enghreifftiol.** Bydd diweddarau'r Erthyglau Enghreifftiol, yn gyntaf i weithredu'r diwygiadau a ffefrir i hawliau pleidleisio ac yn ail i roi effaith i'r diwygiadau eglurhaol a nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, yn diogelu nod polisi'r Hawl i Reoli drwy ganiatáu i denantiaid gadw rheolaeth ar gwmnïau RTM a ffurfiwyd mewn adeiladau sydd â chyfran uwch o arwynebedd amhreswyl, ac yn gwella eglurder y Rheoliadau i sicrhau eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd mewn perthynas â dyrannu pleidleisiau i landlordiaid.

Costau a manteision

a) Costau

24. **Opsiwn 1 – gwneud dim.** Os nad yw'r Rheoliadau'n cael eu diweddarau, mae unrhyw gwmnïau RTM newydd a gaiff eu ffurfio yn sgil y newid mewn terfyn amhreswyl yn wynebu'r risg o ddychwelyd rheolaeth i'r landlord. Mae hawliau pleidleisio a nodir yn yr Erthyglau Enghreifftiol cyfredol yn dyrannu hawliau pleidleisio landlordiaid mewn perthynas ag arwynebedd amhreswyl yn unol â chyfran yr arwynebedd preswyl i amhreswyl yn yr adeilad. O dan Ddeddf 2002, dim ond i eiddo sydd â 25% o arwynebedd amhreswyl y mae'r RTM ar gael. Felly, mae'r bleidlais a ddyrennir i landlordiaid arwynebedd amhreswyl mewn cwmnïau RTM cyfredol wedi'i chyfyngu i 25% o'r rhai sy'n arferadwy gan denantiaid, ac ni all y landlordiaid hyn arfer mwyafrif. Os nad yw'r Erthyglau Enghreifftiol yn cael eu diweddarau, mae potensial i gwmnïau RTM gael eu ffurfio lle gallai landlordiaid rhannau amhreswyl o'r adeilad arfer hyd at 50% o'r pleidleisiau, felly gallai tenantiaid gael eu hatal rhag sicrhau mwyafrif mewn pleidleisiau ar arfer swyddogaethau rheoli. Mae hyn yn groes i fwriad polisi'r RTM, sef caniatáu llwybr dim bai i denantiaid ymgymryd â swyddogaethau rheoli yn eu hadeilad oddi wrth y landlord.
25. **Opsiwn 2: diweddarau'r Erthyglau Enghreifftiol.** Ni fydd diweddarau'r Erthyglau Enghreifftiol yn cael unrhyw effaith benodol ar gwmnïau RTM newydd a ffurfir mewn eiddo ag arwynebedd amhreswyl sydd dros 25% ond o dan y terfyn newydd o 50%. Mae hyn oherwydd y bydd angen i unrhyw gwmni RTM sydd newydd ei sefydlu gydymffurfio â pha bynnag

Erthyglau Enghreifftiol rhagnodedig sydd ar waith ar yr adeg honno. Ni fydd y newidiadau sy'n cael eu gwneud i ddiwygio'r Erthyglau Enghreifftiol yn y modd a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn arwain at gyfrifiad mwy cymhleth ar gyfer hawliau pleidleisio, yn hytrach mae dull gwahanol yn cael ei ddefnyddio yn ei le. Yn yr un modd, nid yw'r diwygiadau eglurhaol yn debygol o newid faint o amser y mae'n rhaid i gwmnïau RTM sydd newydd eu sefydlu gymryd i ddeall a chydymffurfio â'u gofynion.

26. Mae'r Erthyglau Enghreifftiol yn gymwys i'r holl gwmnïau RTM presennol, ac felly bydd angen i gwmnïau presennol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r erthyglau wedi'u diweddarau. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau RTM ddeall a chymhwyso'r cyfrifiad newydd o hawliau pleidleisio. Gall y newidiadau olygu bod gan aelodau'r cwmni gyfran wahanol o'r bleidlais nag y byddent wedi'i harfer o'r blaen.
27. Cyfeiriodd Comisiwn y Gyfraith yn benodol at effaith bosibl ar landlordiaid sy'n aelodau o gwmnïau RTM cyfredol,⁸ gan y gallai eu cyfran o'r bleidlais gael ei lleihau wrth ail-gyfrifo hawliau pleidleisio yn dilyn y newid i'r Erthyglau Enghreifftiol. Fodd bynnag, er y gallai cyfran benodol o bleidleisiau newid, ni fydd unrhyw newid i'r egwyddor gyffredinol, sef pan fo pob tenant cymwys yn aelodau, y gallant arfer mwyafrif y pleidleisiau.
28. Nid oes ystadegau swyddogol ar nifer y cwmnïau RTM gweithredol yng Nghymru. Mae amcangyfrif o nifer y cwmnïau Hawl i Reoli gweithredol yng Nghymru wedi cael ei bennu drwy wneud chwiliad cod post o ddata Tŷ'r Cwmnïau. Mae rhai o'r ardaloedd cod post perthnasol yn cynnwys rhannau o Loegr yn ogystal â Chymru ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd darparu ffigur manwl gywir. Ein hamcangyfrif gorau yw bod rhwng 130 a 200 o gwmnïau Hawl i Reoli gweithredol yng Nghymru ym mis Ionawr 2025. Dim ond cwmnïau y mae eu haelodau yn cynnwys landlordiaid fydd yn cael eu heffeithio gan y newid i hawliau pleidleisio. Nid oes unrhyw ddata ar ba gwmnïau presennol y bydd hyn yn eu cynnwys, ond mae'n debygol o fod yn llai na chyfanswm y cwmnïau RTM sy'n gweithredu ar hyn o bryd. Ni ystyrir bod pwysu a mesur y newid mewn Rheoliadau, a diweddarau dyraniadau pleidleisio priodol i aelodau'r cwmni RTM yn unol â hynny, yn weithgaredd a fydd yn cymryd amser hir, nac angen unrhyw gyngor arbenigol neu arbenigedd. Felly, ystyrir bod yr effaith ar gwmnïau RTM o ddiweddarau arferion i adlewyrchu'r Rheoliadau diwygiedig yn fach iawn.
29. Y tu hwnt i ddiweddarau'r Rheoliadau a chynnal gweithgareddau cyfathrebu ynghylch y newid, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i

⁸ Cyfeirir ato ym mharagraff 6.78 o'r adroddiad RTM.

Lywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer awdurdodau lleol.

Manteision

30. **Opsiwn 1: gwneud dim.** Nid oes unrhyw fanteision i'r opsiwn hwn, ond mae anfanteision iddo. Fel y disgrifir uchod, bydd methu â diweddaru'r Erthyglau Enghreifftiol i ymateb i'r newid mewn meini prawf cymhwyso ar gyfer yr RTM yn anghyson â'r polisi o alluogi tenantiaid i arfer swyddogaethau rheoli mewn perthynas â'u heiddo.
31. **Opsiwn 2: diweddaru'r Erthyglau Enghreifftiol.** Mae diweddaru'r Rheoliadau i gadw gallu tenantiaid i arfer pleidlais fwyafrifol yn y cwmni RTM i bob pwrpas yn cadw'r status quo. Mae hyn oherwydd ei fod yn caniatáu i fwriad polisi'r RTM i gael ei adlewyrchu mewn perthynas ag eiddo sydd newydd gymhwyso ar gyfer yr hawl yn dilyn y newid yn y terfyn amhreswyl yn Neddff Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024.

Ymgynghori

32. Fel y cyfeirir ato uchod, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y dull arfaethedig o ddiwygio erthyglau enghreifftiol i ddarparu ar gyfer y newid i'r terfyn amhreswyl a wnaed yn Neddff Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024. Cadarnhaodd yr ymateb i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, y newidiadau a fyddai'n cael eu gwneud. Nid oes unrhyw newidiadau eraill yn cael eu gwneud i'r rheoliadau.

Asesu'r gystadleuaeth

33. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes disgwyl i'r Rheoliadau hyn effeithio ar gystadleuaeth na chystadleurwydd busnesau Cymru ac felly nid oes angen Asesiad llawn o'r Gystadleuaeth ar gyfer y rheoliadau hyn. Mae prawf hidlo'r gystadleuaeth wedi ei gynnal.

Adolygu ar ôl gweithredu

34. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adolygiad ôl-weithredu ar ôl gweithredu Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024, a ysgogodd y newid i erthyglau enghreifftiol a gyflawnir drwy'r rheoliadau hyn. Nid oes unrhyw adolygiad penodol pellach wedi'i gynllunio.

Crynodeb

35. Dewiswyd Opsiwn 2 (diweddaru'r Erthyglau Enghreifftiol). Mae costau bach iawn o dan yr opsiwn hwn. Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i fanteision y newid i'r meini prawf cymhwyso ar gyfer RTM gael eu teimlo gan denantiaid sy'n aelodau o gwmnïau RTM a ffurfiwyd mewn eiddo sydd â chyfran uwch o arwynebedd llawr amhreswyl. Dyma nod polisi'r

RTM, a'r newid terfyn amhreswyl yn Neddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad
a Rhydd-ddaliad 2024.